Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.7 Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Trosolwg

Crëwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dyma gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n gyfrifol am ddarpariaeth eiddo, staff ac adnoddau i gefnogi Aelodau'r Cynulliad (AC). Mae'r daflen hon yn darparu manylion pellach am y Comisiwn; ei rôl a'i waith a'i berthnasedd i'r trydydd sector yng Nghymru.

Rôl a gwaith

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod arall a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol. Clerc y Cynulliad yw pennaeth staff y Comisiwn, ac ef hefyd yw Prif Weithredwr y Comisiwn. Mae staff y Comisiwn yn cynnwys staff blaen-y-tŷ y Cynulliad Cenedlaethol; staff y Cynulliad sy'n ymwneud â chyfathrebu mewnol ac allanol, staff Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, megis clercod pwyllgorau ymysg eraill.

Aelodau'r Comisiwn

Etholwyd y Comisiynwyr gan yr Aelodau yng Nghyfarfod Llawn 6 Mehefin 2007. Ynghyd a'r Llywydd, Rosemary Butler, sy'n cadeirio'r Comisiwn, yr aelodau yw Sandy Mewies AC, Angela Burns AC, Rhodri Glyn Thomas AC a Peter Black AC.

Cyfleoedd i'r trydydd sector

Mae'r Comisiwn yn ceisio gwella dealltwriaeth ac ymrwymiad i waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Golyga hyn fod yna gyfle i'r trydydd sector i wneud awgrymiadau i'r Comisiwn am sut i gyflawni'r nod yma, ac yn benodol, sut i gynnwys y sector yn effeithiol. Mae prosiect Lleisiau dros Newid Cymru yn canolbwyntio ar hyn fel blaenoriaeth allweddol, a byddwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau gan fudiadau sydd â syniadau ar y pwnc.

Mae hefyd yn ddefnyddiol i fudiadau'r trydydd sector ystyried ffyrdd o gysylltu gyda chyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad. Gall y gwasanaeth pwyllgor a'r gwasanaeth ymchwil aelodau fod yn ddefnyddiol iawn i fudiadau sy'n dymuno bod yn rhan o Fusnes y Cynulliad. Efallai y gallwch ystyried darparu disgrifiad o weithgareddau a maes diddordeb eich mudiad i glerc y pwyllgor fel y gellir eich diweddaru ar fusnes y pwyllgor, a chysylltu â chi os oes ymchwiliad yn digwydd. (Am fwy o wybodaeth ar gysylltu â'r Pwyllgorau, gweler taflen wybodaeth arall).

Mae gwasanaeth ymchwil yr Aelodau yn adran ddefnyddiol i gysylltu, gan ei fod yn darparu cefnogaeth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau archwilio a deddfu'r Cynulliad, ac i bob un o'r 60 AC a'u staff. Os ydych yn cynhyrchu unrhyw gyhoeddiadau, ymchwil, adroddiadau neu gyhoeddusrwydd, mae'n werth ei anfon at Y gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn ogystal â'r AC. Mae gan y gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau arweinyddion ar gyfer wahanol feysydd polisi, felly mae'n werth darganfod pwy sy'n arwain eich maes polisi chi (mae'r wybodaeth ar gael ar www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-publications-research.htm#mrs) a chysylltu gyda hwy i amlygu eich arbenigedd a'ch sail tystiolaeth. Gallwch hefyd edrych ar ystod o friffiau a gwybodaeth a gynhyrchir gan y gwasanaeth ymchwil yr Aelodau ar eu gwefannau. Anelir y rhain yn gyntaf at yr AC, ond gallant hefyd fod yn ddefnyddiol i fudd-ddeiliaid allanol.

Gwybodaeth bellach

Comisiwn y Cynulliad

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am Gomisiwn y Cynulliad ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru www.cynulliadcymru.org/abthome

Neu fe allwch gysylltu â'r Comisiwn gan ddefnyddio'r canlynol:

E-bost: assembly.info@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 0845 010 5500
Typetalk: 0845 010 5500
Minicom: 029 2089 8601
Ysgrifennu at: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:17/06/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk